Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cofnodion cymeradwy cyfarfod
# Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr
# a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023, drwy gyfrwng Timau

### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) – Cadeirydd | Rheolwr Grŵp – Cymorth Busnes |
| Mrs D Davies (DD) - Ysgrifennydd | Prif Swyddog – Strategaeth Busnes a Pherfformiad |
| Ms R Garner (RG) | ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) Arweinydd y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Nam Meddygol a Symud Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr Tîm Gofal Plant |
| Y Cyng J-P Blundell (Y Cyng JPB) | Aelod y Cabinet dros Addysg |

### Cynrychiolwyr Ysgolion (cymunedol a gwirfoddol rheoledig)

| | |
|---|---|
| Mrs Catrin Coulthard | Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |

### Cynrychiolwyr Ysgolion (gwirfoddol a gynhelir)

| | |
|---|---|
| Mr J Tarran (JT) – Is-gadeirydd | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru |

### Cynrychiolwyr yr esgobaeth Babyddol

| | |
|---|---|
| Ms Anne Robertson (AR) | Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd |

### Cynrychiolwyr esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Ms Rebecca Morteo (RM) | Arweinydd Gweithredol Addysg Esgobaeth Llandaf |

### Cynrychiolwyr Cymunedol

| | |
|---|---|
| Mr W Bond (WB) | Ysgol Heronsbridge |

### Aelodau ychwanegol

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd RD bawb i’r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.

Cyflwynodd RD MT, Cydlynydd Ymgysylltu ag Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel aelod newydd ychwanegol i’r fforwm.

Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth CC ac RM.

Hysbysodd DD y fforwm fod y Cyng JPB wedi ymuno fel cynrychiolydd yr awdurdod lleol, bod AS wedi ymddeol a WB wedi ymddiswyddo.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 a materion yn codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir, gydag un newid i'w wneud i Capita yn hytrach na Capital yn Adran 9.

Hysbysodd DD yr aelodau ei bod hi wedi cyfarfod gyda JT i drafod y polisïau derbyn drafft ar gyfer ysgolion VA. Cadarnhaodd JT ei fod wedi hysbysu'r clwstwr am yr angen i dynhau eu gweithdrefnau yn ymwneud â pholisïau derbyn.

## 3. Aelodaeth y fforwm am flwyddyn ysgol 2022-2023

Cyfeiriodd DD at Atodiad A, sef dogfen oedd yn rhoi manylion aelodaeth arfaethedig y fforwm ar gyfer 2022-2023, a thynnodd sylw at y canlynol:

- Derbyniwyd cyngor cyfreithiol gan fod y Cynghorydd JPB yn aelod etholedig o'r awdurdod lleol, nad yw deddfwriaeth yn caniatáu iddo fod yn gynrychiolydd cymunedol ar y fforwm derbyn. Felly, cynrychiolydd yr awdurdod lleol oedd y Cynghorydd JPB.
- O ganlyniad i'r ffaith fod yna bum aelod awdurdod lleol craidd, roedd MT, Cydgysylltydd Ymgysylltu ag Addysg ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, wedi ymuno â'r fforwm fel aelod ychwanegol.
- Roedd AS wedi ymddeol fel Pennaeth Ysgol Gyfun Porthcawl. Roedd DD wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â phennaeth i gymryd lle AS ar y fforwm.
- Roedd WB wedi ymddiswyddo fel llywodraethwr ac fel aelod o'r fforwm.
- Anfonwyd llythyrau yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r fforwm at yr holl rieni lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol.

## 4. Rhaglen waith ddrafft 2022-2023

Cadarnhaodd DD fod y rhaglen waith ddrafft wedi cael ei chymeradwyo yn y cyfarfod diwethaf gyda mân newidiadau.

**Adran 4.1** – Tynnodd DD sylw at y ffaith ei bod wedi anfon adroddiad blynyddol drafft y fforwm, oedd ar yr agenda i'w drafod, at yr holl aelodau i'w ystyried ym mis Tachwedd, 2022, oherwydd mai dyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei dderbyn oedd 10 Tachwedd 2022. Cytunwyd ar yr adroddiad a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru ar 21 Tachwedd 2022. Cyhoeddwyd yr adroddiad, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar wefan CBSP yn unol â'r gofynion.

**Adran 4.2** - Atgoffodd DD yr aelodau o'r gofyniad i bob awdurdod derbyn ymgynghori ar ei drefniadau ar gyfer blwyddyn benderfynu rhwng 1 Medi a 1 Mawrth, gyda'r trefniadau'n cael eu penderfynu erbyn 15 Ebrill. Mae'r flwyddyn benderfynu yn dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y mae'r trefniadau'n berthnasol ynddi mewn gwirionedd.

Eglurodd DD i'r fforwm fod angen i’r ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir ymgynghori â'r awdurdod lleol cynhaliol, pob awdurdod lleol y mae ei ardal yn ymuno â'r ardal ddaearyddol berthnasol a chyrff llywodraethu'r holl ysgolion cynradd eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rhaid i'r ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir ymgynghori â'r holl ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid yr ysgolion uwchradd eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unig. Yna mae angen penderfynu ar y trefniadau hyn erbyn 15 Ebrill, a'r gofyniad i hysbysu'r holl gyrff yr ymgynghorwyd â hwy, o fewn 14 diwrnod, i'w hysbysu bod y trefniadau wedi cael eu penderfynu.

Mae DD wedi anfon nodyn at yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i’w hatgoffa am y gofynion hyn ac roedd yn disgwyl am atebion ynghylch statws eu trefniadau.

Cadarnhaodd DD fod trefniadau derbyn yr awdurdod lleol ar y trywydd iawn o ran cydymffurfio â'r gofynion. Roedd newid bach wedi cael ei wneud i’r wybodaeth am ddysgwyr ADY i adlewyrchu cyngor gan y Tîm Cymorth i Ddysgwyr mewn perthynas â’r Ddeddf ALNET newydd. Roedd gwasanaethau cyfreithiol CBSP wedi adolygu a chymeradwyo’r drafft, oedd wedi cael ei anfon at bob corff llywodraethu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr awdurdodau lleol cyfagos a’r esgobaethau Pabyddol a’r Eglwys yng Nghymru gyda 6 Ionawr yn ddyddiad cau ar gyfer atebion. Dywedodd DD y byddai'r polisi arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn gynnar ym mis Chwefror 2023.

Cododd RD y pwynt nad yw’r rheoliadau’n nodi pa mor hir i ymgynghori yn ei gylch a’r terfynau amser tynn i benderfynu erbyn 15 Ebrill. Cadarnhaodd DD fod CBSP yn gyffredinol yn ymgynghori am fis o leiaf. Cadarnhaodd CC fod RhCT hefyd yn ymgynghori am fis a dywedodd fod Caerdydd yn gwneud yr un fath.

Gofynnodd JT am eglurhad ar y broses ymgynghori a phenderfynu. Ailgadarnhaodd DD y wybodaeth (fel y manylwyd uchod) a dywedodd fod yr e-byst at bob ysgol wirfoddol a gynorthwyir wedi rhoi esboniadau cynhwysfawr o'r gofynion.

**Adran 4.3** – Ymddiheurodd DD nad oedd yr adroddiad derbyniadau wedi ei gwblhau eto ond eglurodd fod yr adroddiad yn darparu ystod o wybodaeth yn ymwneud â derbyniadau ac yn gymorth i’r fforwm i gyflawni ei gyfrifoldebau, sy’n cynnwys monitro cydymffurfiaeth â’r trefniadau ar gyfer derbyniadau i ysgolion fel y nodir yn polisi.

Tynnodd DD sylw at y ffaith mai ag ysgolion, y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar eu cyfer, yn unig y mae’r wybodaeth yn yr adroddiad yn ymwneud. Roedd angen gweithgaredd i gaffael ac integreiddio gwybodaeth gan yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

Tynnodd DD sylw at y pwyntiau canlynol:

- Ynglŷn â newidiadau yn nifer y lleoedd Meithrin Rhan-amser oedd ar gael ar gyfer Ionawr ac Ebrill 2023, esboniodd DD fod amrywiad o flwyddyn i flwyddyn yn anochel o ystyried y ffactorau sy'n pennu nifer lleoedd o'r fath.

- Goblygiadau ceisiadau a ddaw i law yn hwyr, sef canran fach. Gall ceisiadau hwyr fod oherwydd bod teuluoedd wedi symud i'r ardal, neu fod rhai wedi colli'r dyddiad cau. Sicrhaodd DD y fforwm fod yr holl ddyddiadau derbyn yn cael eu hysbysebu'n glir gan yr awdurdod lleol a'u bod hefyd wedi eu cynnwys yn llythyrau'r ysgolion at rieni/gofalwyr.

- Mae nifer y ceisiadau a gyflwynir drwy'r cyfleuster ar-lein yn parhau i fod yn uchel. Mae rhieni'n cael eu hannog a'u cynorthwyo i gwblhau ceisiadau ar-lein, er bod fersiynau copi caled ar gael i'r rhai sydd eu hangen.

- Er gwaethaf y ffaith fod goblygiadau posibl cofnodi dim ond un dewis ysgol yn cael eu hamlinellu yn y ffurflenni cais, nid yw canran ystyfnig o rieni/gofalwyr yn cofnodi uchafswm nifer y dewisiadau ysgol.

- Mae dewis rhiant yn galluogi rhiant/gofalwr i fynegi dewis am unrhyw ysgol, ond os nad yr ysgol yn y dalgylch yw'r un a ffefrir, neu'r ysgolion addas agosaf o ran cyfrwng Cymraeg, mae goblygiadau i'r plant hynny os oes mwy o geisiadau na lleoedd.

- Ar gyfer 50% o'r ceisiadau lle roedd yr ysgol dewis cyntaf yn ysgol gyfrwng Cymraeg, nid oedd yr ail ddewis, lle y'i cofnodwyd, yn ysgol gyfrwng Cymraeg. Ar gyfer ceisiadau Meithrin Rhan-amser a Llawn Amser, roedd gostyngiad yn y duedd, er bod y ffigwr yn dal i fod dros 50%. Mewn perthynas â derbyniadau dosbarth Derbyn, roedd honno'n duedd wastad. Cyfeiriodd DD at yr awdurdod lleol yn cael ei herio'n rheolaidd ynghylch y rheswm pam yr oedd rhieni/gofalwyr oedd wedi gwneud cais am le mewn ysgol gyfrwng Cymraeg oedd yn orlawn a lle wedi cael ei wrthod, wedyn wedi dewis i'w plant fynd i ysgol gyfrwng Saesneg. Pwysleisiodd DD mai dewis y rhieni oedd yn berthnasol, a bod rhieni/gofalwyr yn aml yn gofyn i'r ail ddewis, sef ysgol gyfrwng Saesneg, gael ei brosesu, yn hytrach na rhoi ystyriaeth i unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill oedd â lleoedd ar gael.

- Roedd gormod o alw am leoedd yn parhau yn Ysgol Gyfun Bryntirion.

- Mae canran o geisiadau Blwyddyn 7 yn parhau lle mae'r cais am bontio o Flwyddyn 6 mewn ysgol gyfrwng Cymraeg i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd gyfrwng Saesneg.

- Roedd nifer yr apeliadau derbyn wedi cynyddu dros y bum mlynedd flaenorol, ar gyfer rowndiau derbyn a derbyniadau yn ystod y flwyddyn oherwydd y cynnydd yn nifer yr ysgolion oedd â gormod o geisiadau.

- Byddai adran Mynediad Teg yn cael ei hychwanegu at adroddiadau yn y dyfodol, i ddarparu data ynghylch ceisiadau ar gyfer disgyblion bregus ac anodd eu lleoli.

Holodd y Cynghorydd JPB a oedd ffordd o fapio'r ceisiadau hynny lle mai ysgol cyfrwng Cymraeg oedd y dewis cyntaf ac ysgol cyfrwng Saesneg yn ail ddewis. Roedd y Cynghorydd JPB yn meddwl tybed a oedd rhieni/gofalwyr efallai'n dewis ysgol gyfrwng Cymraeg oherwydd mai dyma'r ysgol agosaf yn hytrach na dymuniad cryf i'w plentyn gael addysg gyfrwng Cymraeg.

Cytunai RD y gallai hyn fod yn wir a nododd er y byddai'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn darparu cludiant i ddisgyblion cymwys i'w hysgol gyfrwng Cymraeg agosaf nesaf, mae rhieni/gofalwyr yn aml yn dewis yr ysgol gyfrwng Saesneg agosaf nesaf yn lle hynny.

Nododd RD y gallai rhieni/gofalwyr deimlo eu bod yn medru cefnogi plentyn Meithrin neu Dderbyn i gael mynediad i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, ond yn ailystyried hyn yn ddiweddarach yn addysg y plentyn, yn enwedig os oeddent wedi dewis yr ysgol agosaf yn hytrach na dymuniad cryf am addysg gyfrwng Cymraeg.

Awgrymodd MT y dylid ychwanegu data ar nifer yr apeliadau llwyddiannus at adroddiadau yn y dyfodol.

Dywedodd RD efallai y byddai'n ddefnyddiol myfyrio ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd o'r tu allan i'r sir a sut roeddent yn effeithio ar gapasiti.

## 5. Diweddariad Grŵp Derbyn ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru)

Dywedodd DD wrth yr aelodau am yr eitemau trafod  canlynol yng nghyfarfod Grŵp Derbyn ADEW ar 30 Medi 2022:

- Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Roedd argymhelliad o system Dribiwnlysoedd Unedig Haen Gyntaf i Gymru wedi cael ei dderbyn yn gyffredinol gan weinidogion Cymru.

  Roedd dau faes yn ymwneud â phaneli addysg, sef y paneli apeliadau derbyn a phaneli apeliadau gwahardd disgyblion. Yn dilyn gwaith gydag awdurdodau lleol amrywiol, yr argymhelliad oedd y dylid dod â phaneli apeliadau gwahardd disgyblion i mewn i wasanaeth tribiwnlys unedig. Dylai paneli Apeliadau derbyn barhau i fod yn gyfrifoldeb llywodraeth leol, o ystyried gwerth sylweddol y wybodaeth leol a'r cynnydd mawr yn nifer yr apeliadau oedd yn dod i law drwy gydol y flwyddyn.

- Roedd y ddeddfwriaeth frys yn ymwneud â COVID-19 wedi cyflwyno'r gallu i apeliadau derbyn ddigwydd yn rhithwir, ond daeth y ddeddfwriaeth i ben o 30 Medi 2022. Felly, dylai pob panel apêl ddychwelyd i fod yn wyneb yn wyneb.

  Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon. Er enghraifft, roedd rhai awdurdodau lleol wedi gweld mewnlifiad llawer mwy sylweddol o blant yn cyrraedd o'r Wcráin nag a fu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Wrth wneud Apeliadau derbyn lluosog ar gyfer plant Wcráin, roedd yr awdurdodau lleol hynny o'r farn bod manteision sylweddol wrth ymdrin â'r apeliadau hynny yn rhithiol, yn enwedig o ystyried y pwysau o amgylch Cymru ar wasanaethau dehongli iaith cymwys.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor ynghylch a oedd digon o hyblygrwydd yn Rheoliadau 2005 (Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru)) i ganiatáu i wrandawiadau panel apêl derbyn rhithwir barhau ac osgoi'r angen am broses ddeddfwriaethol ychwanegol. Yn anffodus, y cyngor cyfreithiol oedd nad oedd Rheoliadau 2005 yn caniatáu'r hyblygrwydd hwnnw ac, felly, y byddai angen newid deddfwriaethol.

Dywedodd cynrychiolydd Llywodraeth Cymru mai mater i awdurdodau derbyn unigol yn y pen draw oedd dehongli'r rheoliadau. Dywedodd DD ei bod wedi ymgynghori â Thîm Gwasanaethau Cyfreithiol yr awdurdod lleol a'r penderfyniad a wnaed oedd y byddai Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gynnig apêl rithwir, os mai dyna oedd y dewis a nodwyd gan yr apelydd.

Roedd RD o'r farn mai dull hybrid oedd y ffordd orau ymlaen. Roedd apeliadau rhithwir wedi cynnig manteision gwirioneddol dros apeliadau wyneb yn wyneb i bawb oedd yn gysylltiedig. Tynnodd RD sylw at y ffaith mai gwirfoddolwyr yw aelodau paneli Apeliadau derbyn a phe bai ganddynt bryderon ynghylch dychwelyd i apeliadau wyneb yn wyneb a phe baent yn dechrau tynnu'n ôl, byddai'n anodd i awdurdodau derbyn gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas ag apeliadau derbyn.

Cadarnhaodd MT eu bod wedi profi anawsterau ac oedi wrth geisio dychwelyd i baneli wyneb yn wyneb ar gyfer apeliadau gwahardd.

Cadarnhaodd CC fod RhCT yn parhau i gynnal paneli derbyn yn rhithwir

Dywedodd AR fod gan yr Esgobaeth grŵp hyfforddedig o bobl sy'n gweithio ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn cynnal apeliadau ond hefyd ar draws ffiniau, ac felly mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt weithio gyda dwy set o reoliadau. Y cyngor oedd i'r ysgolion gynnig y dewis i'r rhieni, gyda'r rhagdybiaeth mai'r dewis cyntaf fyddai cyfarfod panel apêl rhithwir.

Ailfynegodd cynrychiolydd Llywodraeth Cymru eu bod yn dibynnu ar ddata gan awdurdodau derbyn mewn perthynas â phlant yn yr Wcráin, i greu map o ble mae'r pwysau'n codi. Mynegodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol farn nad oedd y cymorth ariannol a oedd ar gael yn ddigonol i helpu gyda'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi llety i'r plant hyn. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r anhawster o gael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar y pryd oherwydd maint y galw oddi wrth awdurdodau lleol yng Nghymru

- Dywedodd cynrychiolydd Llywodraeth Cymru nad oedd dyddiad ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Cod Derbyn i Ysgolion newydd ond y gobaith oedd y byddai hwn yn dechrau ym mis Ionawr 2023.

Gofynnodd KJ beth oedd y sefyllfa bresennol o ran plant Wcráin ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cadarnhaodd DD bod 34 o geisiadau ysgolion cynradd wedi cael eu gwneud. Ar gyfer 9 o'r 34, roedd y rhieni naill ai wedi penderfynu peidio â derbyn yr ysgol a gynigiwyd, neu wedi gadael Pen-y-bont ar Ogwr ers hynny. Nid oedd yn hysbys a oedd y teuluoedd wedi dychwelyd i'r Wcráin neu wedi symud i ardal awdurdod lleol gwahanol ar

gyfer llety. Roedd y sefyllfa'n debyg mewn perthynas â'r 26 o geisiadau uwchradd a dderbyniwyd ac a broseswyd.

Cadarnhaodd JT ei fod yn ymwybodol bod dau blentyn yn mynychu ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, ac y byddai'n gofyn am ddiweddariad.

Dywedodd AR nad oedd data ar gael o ystadegau ar draws yr Esgobaeth mewn perthynas â phlant Wcráin.

Cadarnhaodd RD nad oedd unrhyw oddefeb arbennig o ran derbyniadau i blant Wcráin a bod ceisiadau am leoedd mewn ysgolion yn parhau i gael eu derbyn mewn perthynas â ffoaduriaid o Afghanistan a Syria.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion.

## 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ni chytunwyd ar ddyddiad. Cytunodd DD I gyfathrebu â'r aelodau ynghylch dyddiad y cyfarfod nesaf.

Diolchodd RD i bawb am eu presenoldeb ac am eu cyfraniadau.